



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithiwr,

27/06/2022

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod y rhan boethaf o'r flwyddyn hyd yma. Er bod y tywydd cynhesach yn cael ei groesawu gan lawer, a fydd yn mwynhau'r cyfle i fod allan yn yr heulwen, nid yw bob amser yn hawdd i'r rhai ohonoch sy'n gweithio mewn tymereddau uwch.

Mae'n bwysig cofio sut i fod yn ddiogel yn yr haul ac amddiffyn eich teulu a'ch anwyliad hefyd. Gall defnyddio eli haul ag amddiffyniad uchel, yfed digon o hylifau ac aros yn y cysgod lle bo hynny'n bosibl eich helpu chi yn y tywydd cynhesach. I gael rhagor o awgrymiadau ar sut i gadw'n ddiogel, [darllenwch yr erthygl hon ar ein gwefan](#).

Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn falch iawn o fynychu Ein Dôl Iechyd yn Ysbyty Athrofaol Llandochoau; prosiect cwbl ysbrydoledig sy'n creu math newydd o le ar gyfer darparu gofal iechyd. Mae mynediad at fannau gwyrdd mor bwysig ac mae'r ddôl yn gyfle gwych i allu mwynhau hynny. Ymunais â Vaughn Gething AS a Simone Joslyn, Pennaeth Rhaglen Elusen Iechyd a Chelfyddydau Caerdydd a'r Fro, i fod yn rhan o gyflwyniad ffurfiol ein Gwobr Lawn Building with Nature – gwobr fawreddog a'r gyntaf o'i math yng Nghymru. [Darllenwch ragor yma](#).

Mynychais ddigwyddiad HIV Terrence Higgins yn y Senedd a oedd yn nodi deugain mlynedd ers i Terrence Higgins ei hun ddod y person cyntaf a enwyd i farw o salwch yn ymwneud

ag AIDS yn y DU. Siaradodd ffrind Terry, Martyn Butler, yn y digwyddiad a oedd yn deimladwy iawn ac a roddodd gyfle i bawb a oedd yno i fyfyrio ar ba mor bell yr ydym wedi dod dros y pedwar degawd diwethaf. Fe amlinellodd Mark Drakeford, y Prif Weinidog, weledigaeth Llywodraeth Cymru o ran y targed o ddim trosglwyddiadau HIV newydd yng Nghymru erbyn 2030, gan beidio â gadael unrhyw gymuned ar ei hôl a chwalu stigma.

Fe wnes i fwynhau'r cyfle hefyd i ymweld â'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar (ALAS) lle cefais gwrdd â Paul Rogers, Rheolwr y Gyfarwyddiaeth, a wnaeth fy nghyflwyno i ryw faint o'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan y tîm prostheteg, y gwasanaeth llygaidd artiffisial, orthoteg, ffisiotherapi a Thechnoleg Gynorthwyol Electronig. Diolch i Paul yn ogystal â Heather Bassett, Claire Allen-Bull, Jo Burton a Jeff Morris am eich amser a'ch mewnwelediad.

Fe wnes i hefyd gwrdd â Dr Cherry Shute a Dr Biju Mohamed, arweinwyr clinigol o Dîm Cof Caerdydd a'r Fro a sefydlwyd 30 mlynedd yn ôl ac sydd wedi bod yn wasanaeth blaenllaw ledled Cymru ers hynny. Mae'r tîm yn darparu gofal rhagorol i bobl hyn sy'n byw gyda dementia ac anhwylderau gwybyddol eraill, ac ar hyn o bryd yn gofalu am 3,000 o unigolion a'u gofalcwyr. Cawsom rai trafodaethau defnyddiol am ffyrdd y gellir ehangu'r gwasanaeth ymhellach a pharhau i wella gofal i'r rhai yr effeithir arnynt.

I nodi Wythnos Anableddau Dysgu, ymwelais â thîm Prosiect SEARCH sy'n gwneud cyfraniad enfawr i'n sefydliad. Daeth y Bwrdd Iechyd yn sefydliad Prosiect SEARCH yn 2021 ac roeddwn yn ffodus o gael y cyfle i gwrdd â rhai o'n interniaid sydd wedi ymuno â ni ar draws Ysbyty Athrofaol Cymru mewn adrannau fferylliaeth, patholeg gellog, arlwy, switsfwrdd a'r adran llyeiniau. Gallwch ddarllen mwy am Broiect SEARCH yn rhifyn yr wythnos diwethaf o Cyswllt y Prif Weithredwr.



Mae'r Gwobrau Cydnabyddiaeth Staff yn prysur agosáu ac mae bob amser yn ddigwyddiad allweddol yng nghalendr ein Bwrdd Iechyd. Dyma ein ffordd o dynnu sylw at gyflawniadau anhygoel ein staff dros y deuddeg mis diwethaf. Ar ôl y cyfnod mwyaf heriol yn hanes y GIG, mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i ni fyfyrto ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni a'r heriau rydym wedi'u goresgyn gyda'n gilydd. Cynhelir y gwobrau ar 14 Gorffennaf ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at fynychu fy seremoni gyntaf fel Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a llongyfarch rhai enillwyr teilwng iawn. Cadwch lygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'n siŵr y byddwch wedi clywed am y protestiadau tanwydd arfaethedig ar 4 Gorffennaf a fydd yn achosi problemau teithio ar draws sawl rhan o'r DU gan gynnwys Pont Hafren. Cadwch lygad ar y newyddion os ydych yn bwriadu teithio ar y diwrnod hwnnw a gwneud trefniadau eraill os gallwch.

Mwynhewch eich wythnos, a gofalu am eich hunain.

Theatrau offthalmoleg symudol yn lleihau amseroedd aros am lawdriniaeth cataract

Er mwyn darparu ar gyfer y nifer cynyddol o gleifion sydd angen llawdriniaeth cataract, bu'n rhaid i BIP Caerdydd a'r Fro ddatblygu'r ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu i leihau amseroedd aros a gwella canlyniadau i gleifion.

I allu trin cleifion sy'n ddifrifol wael gyda COVID-19, gwnaed y penderfyniad anodd i oedi llawer o'n triniaethau dewisol.

Arweiniodd hyn at nifer sylweddol o gleifion yn aros am driniaethau gan gynnwys llawdriniaethau cataract, ac er mwyn lleihau'r amseroedd aros hyn, nododd y Bwrdd Iechyd gyfle i wella mynediad at wasanaethau gofal llygaidd.

Er mwyn lleihau nifer gyffredinol y cleifion sy'n aros am lawdriniaeth ddydd, mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd ddull wedi'i dargedu gan nodi y byddai'r ganolfan offthalmig newydd yn lleihau nifer y cleifion sy'n aros am lawdriniaethau cataract yn sylweddol. Ar ôl llwyddo i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2021, roedd hi'n bosibl i'r Bwrdd Iechyd sefydlu dwy theatr offthalmoleg symudol o'r radd flaenaf yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Cafodd y theatrau dros dro eu hadeiladu a'u gweithredu o fewn dim ond naw mis, gyda thimau o bob disgyblaeth yn gweithio gyda'i gilydd i helpu i adfer gweithgarwch i lefelau cyn y pandemig a thu hwnt. Mae'r tîm yn gweithio i gynyddu gweithgarwch cataract drwy'r theatrau symudol o 138 o gleifion y mis i 400 y mis ar gyfartaledd.

Mae'r theatrau symudol yn un o nifer o fentrau sy'n cael eu datblygu ar draws y Bwrdd Iechyd i leihau amseroedd aros. Ar draws ein gwasanaethau gofal llygaidd mae mwy o gleifion yn cael eu gweld o ganlyniad i dimau'n gwneud y defnydd gorau o ddatblygiadau digidol, yn cynyddu hyfforddiant i optometryddion a nyrsys arbenigol ac yn cydweithio i ddarparu mwy o wasanaethau mewn lleoliad cymunedol.

Mae'r gwaith hwn yn un o nifer o brosiectau sy'n cael eu cefnogi gan raglen Adfer ac Ailgynllunio'r Bwrdd Iechyd, sy'n anelu at adfer gwasanaethau y gwnaeth y pandemig effeithio arnynt, trawsnewid llwybrau clinigol ac, wrth wneud hynny, gwella gwasanaethau i gleifion drwy gynyddu gweithgarwch a gwella mynediad at ofal.

Gwasanaeth Genomeg Seiciatrig Cymru Gyfan yn lansio

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi lansiad Gwasanaeth Genomeg Seiciatrig Cymru Gyfan; menter 'gyntaf yn y DU' a gynlluniwyd i ddarparu cwnsela genetig a mynediad at brofion genetig i bobl sy'n fwy tebygol yn enetig o brofi anhwylder iechyd meddwl.



Mae'r gwasanaeth cenedlaethol blaenllaw byd-eang hwn a gafodd sylw yn y cyfryngau yr wythnos diwethaf - [darllenwch fwy yma](#) - yn cael ei hwyluso gan bartneriaeth amlweddol o arbenigwyr o Wasanaeth Genomeg Meddygol Cymru Gyfan (AWMGS), Canolfan MRC ar gyfer Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig Prifysgol Caerdydd, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl (NCMH), Gwasanaethau Iechyd Meddwl y GIG ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'n glod i bawb sy'n gysylltiedig ag ef a bydd o fudd mawr i ddinasyddion Cymru a thu hwnt.

Mae ymchwil sydd ar flaen y gad ac arloesi o'r math hwn yn rhan hanfodol o drawsnewid gwasanaethau a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a'u hanwyliaid. Rwy'n hynod falch o fod yn rhan o'r rhaglen uchel ei bri hon.

Canolfan Niwro-Oncoleg Caerdydd yn cael ei chydabod gydag achrediad Tessa Jowell

Rydym yn falch iawn bod Canolfan Niwro-Oncoleg Caerdydd wedi ennill statws Canolfan Ragoriaeth Tessa Jowell gan Genhadaeth Cancer yr Ymennydd Tessa Jowell (TJBCM).

Cafodd Canolfan Niwro-Oncoleg Caerdydd, sy'n cynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru, Canolfan Ganser Felindre a Phrifysgol Caerdydd, ei chydabod am ei hymrwymiad rhagorol i ddatblygu a gwella gwasanaethau.

Canmolodd y pwyllgor drylwyrdd ac ymroddiad y tîm i ddatblygu'r gwasanaeth a chanmolodd ei lwybr adsefydlu a'i frwdfrydedd trawiadol. Mae wedi rhannu ei arferion gorau drwy Academi Tessa Jowell er mwyn i ganolfannau eraill ddysgu ohonynt.


Meddai George Eralil, Niwrolawfeddyg Ymgynghorol yn Ysbyty Athrofaol Cymru ac Arweinydd Rhwydwaith Cancer Cymru ar gyfer yr Ymennydd a CNS: "Mae Oncoleg Niwrolawfeddygol yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi datblygu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf.

"Erbyn hyn mae gennym dîm Llawfeddygaeth Cancer yr Ymennydd a CNS is-arbenigol llawn ac mae gennym is-arbenigedd pellach mewn technegau llawfeddygol pediatriig, effro a gwynnin. Mae Cymru bellach ar fap niwro-oncoleg y Deyrnas Unedig wrth i ni ymfalchïo'n fawr mewn croesawu'r treial FUTURE-GB ymhlith eraill i Gaerdydd.

"Mae achrediad Tessa Jowell fel Canolfan Ragoriaeth yn ysbrydoledig ac yn ostyngedig ar yr un pryd."

Darparu Gofal yn y Gymuned ym mis Mai

O fewn y gymuned, mae gan ein nyrsys rôl ddeinamig ac amrywiol, yn darparu gofal yng nghartrefi pobl, mewn lleoliadau cymunedol, meddygfeydd teulu a chlinigau bob dydd. Yn ystod mis Mai, mae ein tîm amrywiol o weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi bod yn cefnogi cleifion i sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol, sydd nid yn unig wedi eu galluogi i aros yng nghysur eu cartrefi eu hunain, ond sydd hefyd, lle bo'n bosibl, yn helpu i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty.



Ar hyn o bryd mae nyrsys cymunedol yn cefnogi 3,523 o gleifion ledled Caerdydd a'r Fro i aros yn eu cartrefi eu hunain ac fe wnaeth Aseswyr Nyrsio gefnogi ac adolygu 1,665 o gleifion i sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel a phriodol ar gyfer eu hanghenion mewn lleoliadau cymunedol a chartrefi nyrsio.

Mae Tîm Adnoddau Cymunedol Caerdydd a Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro, timau o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol sy'n cefnogi cleifion yn eu cymuned i osgoi arosiadau diangen yn yr

ysbyty a derbyn gofal gartref, wedi helpu 109 o gleifion i gael eu rhyddhau yn gynnar o'r ysbyty ac wedi derbyn 266 o gleifion sydd angen cymorth therapi yn y gymuned.

Gwnaeth ein Tîm Ymateb Acíwt o nyrsys profiadol, sy'n hwyluso'r gwaith o ryddhau cleifion o'r ysbyty neu atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty, gefnogi 13 o gleifion i adael yr ysbyty'n gynnar a dychwelyd adref.

Diolch i'n Timau Nyrsio Cymunedol, rydym yn gwerthfawrogi eich gwaith yn fawr iawn. Diolch i'r timau a'r wardiau sy'n parhau i wneud y mwyaf o'n gwasanaethau cymunedol.

Dathlu'r gymuned LHDTC+ yn ystod mis Pride

I ddathlu Pride 2022, roeddem am fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo ein cydweithwyr LHDTC+ a fu'n rhannu eu straeon personol yn ogystal â rhannu'r hyn y mae Pride yn ei olygu iddynt. Yn ystod Mis Pride ym mis Mehefin eleni, gwnaethom gydnabod pa mor bell y mae hawliau LHDTC+ wedi dod, ond hefyd pa mor bell sydd gennym i fynd o hyd.

[Darllenwch straeon personol gan rai o aelodau LHDTC+ ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yma.](#)

Rydym yn falch o fod yn un o gyflogwyr mwyaf cynhwysol Cymru o safbwynt pobl LHDTC+, gan gyrraedd safle 37 ar Restr 100 o Gyflogwyr Gorau Stonewall Cymru eleni.

Yn ei adroddiad, gwnaeth Stonewall ganmol BIP Caerdydd a'r Fro am fod yn "eiriolwr enfawr dros rymuso unigolion" a disgrifiodd ein hymroddiad i rannu profiadau pobl LHDTC+ groestoriadol yn y gweithle fel rhywbeth "pwerus".

Dywedodd Mitchell Jones, Uwch-reolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a'r Gymraeg yn BIP Caerdydd a'r Fro (ef/fe): "Rydym yn ymrwymedig i greu amgylchedd gwaith cynhwysol i bawb ac mae hyn yn dangos ein bod nid yn unig wedi gwneud cynnydd gwych, ond ein bod ar ein ffordd i gynyddu cynhwysoldeb ar gyfer ein cydweithwyr LHDTC+." Gallwch ddarllen rhagor am pam ein bod yn un o gyflogwyr gorau'r DU o safbwynt cynnwys pobl LHDTC+ [yma](#).

Rydym wrth ein bodd fod The Welsh Ballroom Community wedi cael eu comisiynu i gynhyrchu perfformiad arbennig fel rhan o'n dathliadau Pride 2022. Bydd y perfformiad yn arddangos hanfod neuadd ddawns a sut mae wedi dod yn fan diogel i bobl fynegi eu hunigoliaeth heb farnu.

Sefydlwyd The Welsh Ballroom Community ddwy flynedd yn ôl ac mae wedi derbyn cefnogaeth ryngwladol gan Kyle London Tisci o The Impeccable Haus of Tisci, a Cai Revlon o The Iconic House of Revlon; dau dŷ rhyngwladol sefydledig sy'n tarddu o'r sîn neuadd ddawns yn Unol Daleithiau America.

Cadwch lygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael mwy o wybodaeth.

Prynu eitemau ar draws y Bwrdd Iechyd i alluogi cleifion i gael profiad mwy cyfforddus ac effeithlon

Mae cyllid gan NHS Charities Together wedi cefnogi Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro i brynu nifer o eitemau newydd ar draws sawl adran yn y Bwrdd Iechyd i roi profiad mwy cyfforddus ac effeithlon i gleifion trwy gydol y pandemig COVID-19.

Lampau Hwyliau sy'n Newid Lliw ar gyfer yr Uned Mamolaeth, System Arddweud Fodern Wedi'i Chyflwyno i Ysbyty Plant Arch Noa, Prynu Offer Newydd i Helpu i Roi Diagnosis a Rheoli Asthma <https://healthcharity.wales/purchases-across-the-health-board-to-allow-patients-to-have-a-more-comfortable-and-efficient-experience/>

Rhannu stori Mal Lewis ar gyfer Diwrnod y Fyddin wrth Gefn 2022



Cynhaliwyd Diwrnod y Fyddin Wrth Gefn yr wythnos diwethaf i ddathlu cyfraniad y lluoedd arfog i'n gwlad. Mae milwyr wrth gefn yn chwarae rhan ganolog ochr yn ochr ag unedau rheolaidd i fodloni gofynion amddiffyn a darparu cymorth mewn meysydd arbenigol fel y meysydd meddygol a chyfathrebu. Maent yn allweddol i amddiffyn diogelwch y genedl gartref a thramor, ac fel cefnogwr y Lluoedd Arfog, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn falch o weithio gydag 11 o filwyr wrth gefn. Eleni, buom yn siarad â'r Ymarferydd Nyrsio Brys, Mal Lewis, am ei yrfa yn rhan o'r Fyddin wrth Gefn.

[Darllenwch stori Mal yma.](#)

Celf yn llenwi prif goridor Ysbyty Athrofaol Cymru

Mae Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles wedi comisiynu sawl darn mawr o waith celf sydd bellach yn cael eu harddangos ym mhrif goridor Ysbyty Athrofaol Cymru. Gyda diolch i'r tîm Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, rhoddwyd cot ffres o baent ar y waliau a gosodwyd lloriau a goleuadau newydd, gan ganiatáu i'n gwaith celf sefyll allan. <https://cardiffandvale.art/2022/06/21/art-takes-over-main-corridor-of-uhw/>